



**Ymweliad â Chyngor Dinas a Sir Abertawe
ynghlŷn â'u Gwybodaeth System Monitro Gwaith
Gorfodi Awdurdodau Lleol (LAEMS) 2016/17**

Tachwedd 2018

1.0 Rhagair

- 1.1 Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yn adran llywodraeth annibynnol a'r Awdurdod Cymwys Canolog dynodedig sy'n gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.
- 1.2 Un o swyddogaethau allweddol yr ASB yw monitro ac adrodd ar berfformiad gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid yr awdurdod lleol. Mae'r swyddogaeth o fonitro perfformiad yn cael ei arfer gan yr ASB o dan Ddeddf Safonau Bwyd 1999.
- 1.3 Cesglir data yn flynyddol gan awdurdodau lleol ar weithgarwch gorfodi cyfraith bwyd gyda sefydliadau bwyd. Mae'r data hyn yn cael eu darparu i'r Comisiwn Ewropeaidd (CE) yn unol â rhwymedigaethau'r Deyrnas Unedig (DU) a nodir yn Rheoliad (CE) Rhif 882/2004 a'u cyhoeddi fel ystadegau swyddogol.
- 1.4 Mae'r trefniadau ar gyfer monitro perfformiad yr awdurdod lleol wedi'u nodi yn y 'Cytundeb Fframwaith ar Reolaethau Bwyd Anifeiliaid a Bwyd Swyddogol gan Awdurdodau Lleol'¹. Cesglir data yn electronig gan ddefnyddio system ar y we: System Monitro Gwaith Gorfodi Awdurdodau Lleol (LAEMS).
- 1.5 Mae'r ASB yn dadansoddi data LAEMS yn flynyddol i asesu pa mor effeithiol a chyson y mae rheolaethau bwyd swyddogol yn cael eu darparu. Mae'r gweithgarwch monitro hwn yn cyfrannu at yr ASB yn cyflawni ei nod strategol o 'Fwyd y Gallwn Ymddiried Ynddo'².

¹ Y Cytundeb Fframwaith ar Reolaethau Bwyd Anifeiliaid a Bwyd Swyddogol gan Awdurdodau Lleol: https://signin.riams.org/files/display_inline/45532

² Strategaeth yr Asiantaeth Safonau Bwyd 2015-2020: Bwyd y Gallwn Ymddiried Ynddo <https://www.food.gov.uk/sites/default/files/media/document/Food-Standards-Agency-Strategy%20FINAL.pdf>

2.0 Cyflwyniad

- 2.1 Mae awdurdodau lleol yn darparu gwybodaeth LAEMS ar gyfer gweithgareddau hylendid bwyd a safonau bwyd. Mae'r data'n cynnwys nifer yr arolygiadau ac ymyriadau hylendid bwyd gan awdurdodau lleol, yn ogystal â nifer y sefydliadau sy'n aros am ymyriad, yn ôl yr amlder a ragnodir yng Nghod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru).
- 2.2 Mae dadansoddiad o ddata LAEMS 2016/17 ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru yn dangos gostyngiad cyffredinol yn nifer y busnesau bwyd sy'n aros am ymyriad hylendid bwyd o 3,993 yn 2015/16 i 2,360 yn 2016/17. Mae Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru) yn nodi bod ymyriadau'n cael eu pennu mewn modd sy'n seiliedig ar risg a gweithgarwch gorfodi, sy'n cael ei gyfeirio at y busnesau hynny sydd â'r risg uchaf (categori A-C).
- 2.3 Mae'r data wedi dangos bod awdurdodau lleol yn parhau i fabwysiadu dull sy'n seiliedig ar risg, gan fod y rhan fwyaf o ymyriadau hylendid bwyd sydd eto i'w cynnal (80%) yn ymwneud â sefydliadau risg is (categori D i E). Gall ymyriadau amrywio rhwng rheolaethau swyddogol a gweithgareddau nad ydynt yn rheolaethau swyddogol mewn sefydliadau categori D. Gall sefydliadau categori E fod yn destun gweithgareddau nad ydynt yn rheolaethau swyddogol e.e. strategaethau gorfodi amgen.
- 2.4 Amlinellir yr amlder ymyrryd lleiaf posibl yng Nghod Ymarfer Cyfraith Bwyd (Cymru) yn ôl y categori risg penodedig h.y. chwe mis ar gyfer sefydliadau categori A ac unwaith bob tair blynedd ar gyfer sefydliadau categori E. Pan fo ymyriad yn hwyr mewn sefydliadau bwyd o fewn categorïau risg, efallai na fydd gofyn cynnal arolygiad neu reolaeth swyddogol bob amser.
- 2.5 Er y bu gwelliannau cyffredinol yn y data LAEMS 2016/17, dywedodd pum awdurdod lleol fod mwy na 200 o sefydliadau yn aros am ymyriad hylendid bwyd. Roedd y rhain yn amrywio o sefydliadau categori B i E, yn ogystal â sefydliadau heb sgôr h.y. y rhai a nodwyd gan awdurdod lleol nad oeddent wedi bod yn destun arolygiad cychwynol sy'n rhoi'r categori risg.
- 2.6 Archwiliodd yr ASB y rhesymau dros y diffyg mewn ymyriadau ar gyfer y pum awdurdod lleol hyn a gofyn am osod cynlluniau ar gyfer gwella eu perfformiad.

Rheswm dros Ymweld

- 2.7 Yn ei wybodaeth LAEMS 2016/17, fe wnaeth Cyngor Dinas a Sir Abertawe roi gwybod i'r ASB am dri sefydliad a oedd yn aros am ymyriad hylendid bwyd. O ganlyniad, ni nododd yr ASB yr awdurdod hwn fel blaenoriaeth ar gyfer gweithredu dilynol.
- 2.8 Yn y data i lywio rhaglen archwilio â ffocws ar yr ASB, a gyflwynwyd gan yr awdurdod lleol ym mis Hydref 2017, datgelwyd anghysondebau rhwng

gwybodaeth LAEMS 2016/17 a'u set ddata ddiweddaraf mewn perthynas â sefydliadau yn aros am ymyriadau hylendid bwyd. Nododd y set ddata ddiweddaraf fod dros 700 o sefydliadau categori D a E yn aros am ymyriad hylendid bwyd yn yr un cyfnod â'r wybodaeth LAEMS 2016/17. Mae'r ffigur hwn yn cynrychioli diffyg sylweddol o gymharu ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru am y cyfnod adrodd LAEMS hwn.

- 2.9 Trefnodd yr ASB gyfarfod gyda rheolwyr gwasanaeth perthnasol yn swyddfeydd yr awdurdod yn y Guildhall, Abertawe ar 19 Ebrill 2018 i archwilio'r anghysondebau yn y data.

Nod yr Ymweliad

- 2.10 Nod yr ymweliad oedd asesu trefniadau'r awdurdod ar gyfer cyflwyno ei wybodaeth LAEMS yn gywir; canfod y rheswm/rhesymau dros yr anghysondebau a nodwyd a darparu argymhellion ar gyfer unrhyw welliannau angenrheidiol.

Cwmpas yr Ymweliad

- 2.11 Cynhaliwyd adolygiad o brosesau a gweithdrefnau'r awdurdod ar gyfer casglu, dadansoddi a gwirio ei ddata monitro gorfodi hylendid bwyd, a threfniadau ar gyfer craffu a chymeradwyo'r wybodaeth LAEMS yn briodol. Roedd yr ymweliad yn cynnwys:
- trafodaethau gyda swyddogion allweddol sy'n gyfrifol am adrodd am ddata gweithgarwch gorfodi cyfraith bwyd trwy LAEMS, gan gynnwys trefniadau ar gyfer mynediad i'r system, llwytho data, gwiriadau ac addasiadau ar fonitro gwybodaeth data a chymeradwyo;
 - archwilio'r Cynllun Cyflenwi Gwasanaeth Bwyd (Cynllun Gwasanaeth) 2017/18, Y Weithdrefn Diogelwch Bwyd: Monitro Mewnol a Gweithdrefn ddrafft ar gyfer LAEMS;
 - dadansoddi data ymyrraeth hylendid bwyd y gronfa ddata a chofnodion o sefydliadau newydd sy'n aros am arolygiad hylendid bwyd cychwynnol.

3.0 Canfyddiadau

Proses Cyflwyno Data LAEMS

- 3.1 Penododd yr Awdurdod Lleol Weinyddwr Systemau, ac Arweinydd Tîm Bwyd a Diogelwch a oedd yn gyfrifol am gynnal cofnodion cywir o weithgareddau gorfodi hylendid bwyd ar gronfa ddata'r gwasanaeth bwyd. Roedd y swyddogion hyn hefyd yn gyfrifol am greu a gwirio data ar gyfer gwybodaeth LAEMS hylendid bwyd. Y Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd oedd yn gyfrifol am sicrhau gwiriadau dilysu a chymeradwyo'r data LAEMS.
- 3.2 Roedd defnyddwyr LAEMS wedi cael y lefel briodol o fynediad yn ôl eu cyfrifoldebau. Adeg yr ymweliad, nid oedd y swyddog a oedd yn gyfrifol am gymeradwyo gwybodaeth LAEMS 2016/17 bellach yn y swydd. Er nad oedd y Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd dros dro wedi cael mynediad at LAEMS, cadarnhawyd bod gan yr awdurdod y cyfleuster i greu cyfrif defnyddiwr newydd.

Argymhelliad 1

- 3.3 Dylai'r awdurdod sicrhau bod cyfrif LAEMS gyda'r lefel briodol o fynediad yn cael ei greu ar gyfer y Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd dros dro, a darparu cyfarwyddiadau er mwyn sicrhau bod y system yn cael ei gweithredu mewn modd sy'n darparu'r wybodaeth ofynnol i'r ASB.
- 3.4 Datblygodd yr Awdurdod weithdrefn ddrafft ar gyfer LAEMS, a oedd yn rhoi arweiniad i swyddogion sy'n gyfrifol am gyflwyno data LAEMS ar gyfer hylendid bwyd a/neu safonau bwyd i'r ASB, gan gynnwys trefniadau ar gyfer cymeradwyo. Roedd y cyngor o fewn y weithdrefn yn gyson â'r cyfarwyddiadau a'r gofynion data yng nghanllawiau LAEMS yr ASB.
- 3.5 Er nad oedd gan yr awdurdod weithdrefn gofnodedig ar waith wrth gyflwyno ei wybodaeth LAEMS 2016/17, roedd y swyddogion a oedd yn gyfrifol yn gallu egluro'r broses ar gyfer cyflenwi data LAEMS. Roedd rôl y Gweinyddwr Systemau yn cynnwys tynnu a llwytho data yn y fformat priodol o'r gronfa ddata. Rôl Arweinydd Tîm Bwyd a Diogelwch oedd cynnal archwiliadau awtomatig i nodi a chywiro unrhyw wallau neu anghysondebau yn y data.
- 3.6 Wrth nodi camgymeriadau yn dilyn llwytho data cychwynnol LAEMS, gall awdurdod gywiro'r rhain trwy llwytho data newydd neu addasu ar y sgrin. Cadarnhawyd na wnaeth yr awdurdod unrhyw addasiadau i wybodaeth LAEMS 2016/17.

- 3.7 Dim ond defnyddwyr sydd â'r caniatâd angenrheidiol, fel arfer pennaeth y Gwasanaeth, sydd â'r hawl i gwblhau cam olaf cyflwyno ffurflen LAEMS, h.y. cymeradwyo. Gan nad oedd y cyn Bennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd ar gael, nid oedd yn bosibl gwirio sut y cynhaliwyd y broses gymeradwyo.

Cynllunio Gwasanaethau

- 3.8 Datblygodd yr Awdurdod Lleol Gynllun Gwasanaeth 2017/18, a gymeradwywyd gan y Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd ac Aelod Cabinet perthnasol ym mis Tachwedd 2017. Roedd y Cynllun Gwasanaeth yn rhestru proffil categori risg a nifer y sefydliadau, gan gynnwys y rhai heb sgôr a oedd yn aros am ymyriad hylendid bwyd yn ystod y flwyddyn. Roedd gwybodaeth hefyd wedi'i chynnwys ar weithgarwch ymyrryd arfaethedig yr awdurdod.
- 3.9 Nodwyd ymrwymiad yn y Cynllun Gwasanaeth i arolygu 100% o sefydliadau risg uchel a oedd yn aros am ymyriad yn 2017/18. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw fwriad penodol i ymyrryd mewn sefydliadau risg is yn unol â'r amllderau gofynnol wedi'i ddatgan.
- 3.10 Nododd y Cynllun Gwasanaeth nad oedd 'safleoedd categori D ac E wedi'u harolygu'n rheolaidd ers tua 2002'. Nodwyd yn y Cynllun Gwasanaeth bod 222 o sefydliadau D a 532 o sefydliadau categori E yn aros am ymyriad.
- 3.11 Er bod y gofyniad yn ymwneud â phrydlondeb arolygiadau cychwynnol mewn busnesau newydd yn cael ei gydnabod yn y Cynllun Gwasanaeth, dywedodd yr awdurdod nad oedd yn gallu cyflawni ei rwymedigaeth.
- 3.12 Yn ystod yr ymweliad, nodwyd bod 139 o sefydliadau categori D a 587 categori E, a 186 heb gategori ar y gronfa ddata yn aros am ymyriad ar 1 Ebrill 2018.
- 3.13 Datgelodd adolygiad o ddata LAEMS 2015/16 fod yr awdurdod wedi rhoi gwybod bod dros 500 sefydliadau categori D a E yn aros am ymyriadau hylendid bwyd. Gan nad oedd yr awdurdod wedi bwriadu arolygu sefydliadau risg is yn y flwyddyn ddilynol, dylai'r gostyngiad mewn ymyriadau hwyr fod wedi'u nodi i fod yn anghywir, wrth gynnal gwiriadau data.
- 3.14 Nid oedd gwybodaeth LAEMS 2016/17 yr awdurdod wedi cael ei newid drwy addasiadau ar y sgrin. Felly, mae'n rhaid bod gwall wedi digwydd wrth dynnu a llwytho data o'r gronfa ddata i LAEMS. Roedd y gwiriadau data dilynol a'r broses gymeradwyo yn amlwg yn annigonol. Mae'r broses ar gyfer gwirio data yn unol â'r canllawiau yn hanfodol i sicrhau cywirdeb ffurflenni LAEMS a darparu gwybodaeth ystyrlon i'r ASB ar berfformiad yr awdurdod.

Argymhelliad 2

3.15 Dylai'r awdurdod sicrhau bod pob cam o broses cyflwyno gwybodaeth LAEMS yn cael ei gynnal yn unol â chanllawiau LAEMS fel y gall ddarparu'r wybodaeth ofynnol i'r ASB.

Monitro Mewnol

3.16 Yn ystod yr ymweliad, dywedodd yr awdurdod ei fod wedi nodi'r camgymeriad yn ei wybodaeth LAEMS 2016/17 cyn i'r ASB gysylltu ynghylch y mater. Fodd bynnag, nid oedd yr awdurdod wedi cymryd camau i roi gwybod i'r ASB bod angen diwygio'r wybodaeth LAEMS hwn.

3.17 Roedd yr awdurdod wedi cynnal ymchwiliad mewnol i sefydlu'r rhesymau dros y camgymeriad. Darparwyd esboniad llafar o'r canfyddiadau, a oedd yn gyson â chasgliadau ymweliad yr ASB.

Argymhelliad 3

3.18 Dylai'r awdurdod roi gwybod i'r ASB am unrhyw gamgymeriadau yn ei wybodaeth LAEMS blaenorol mewn modd amserol fel y gellir diwygio'r data yn unol â hynny.

4.0 Casgliad

- 4.1 Nododd ymweliad yr ASB bod angen gwella trefniadau'r awdurdod ar gyfer cynhyrchu, gwirio a dilysu data yn ei wybodaeth LAEMS flynyddol. Nid oedd yr awdurdod wedi dilyn canllawiau'r ASB i sicrhau cywirdeb ei wybodaeth LAEMS.
- 4.2 Nodwyd tri argymhelliad ar gyfer gwella a gofynnwyd i'r awdurdod greu cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion hyn.

5.0 Argymhellion

5.1 Yn dilyn yr ymweliad â'r awdurdod, roedd tri argymhelliad ar gyfer gwella, fel a ganlyn:

Argymhelliad 1

Dylai'r awdurdod sicrhau bod cyfrif LAEMS gyda'r lefel briodol o fynediad yn cael ei greu ar gyfer y Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd dros dro, a darparu cyfarwyddiadau er mwyn sicrhau bod y system yn cael ei gweithredu mewn modd sy'n darparu'r wybodaeth ofynnol i'r ASB.

Argymhelliad 2

Dylai'r awdurdod sicrhau bod pob cam o broses cyflwyno gwybodaeth LAEMS yn cael ei gynnal yn unol â chanllawiau LAEMS fel y gall ddarparu'r wybodaeth ofynnol i'r ASB.

Argymhelliad 3

Dylai'r awdurdod rhoi gwybod i'r ASB am unrhyw gamgymeriadau a nodwyd yn ei wybodaeth LAEMS blaenorol mewn modd amserol fel y gellir diwygio'r data yn unol â hynny.

Archwilwyr:

Archwilydd Arweiniol: Jamie McMeeking

Archwilydd: Craig Sewell

Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru
Llawr 11
Tŷ Southgate
Wood Street
Caerdydd
CF10 1EW

Atodiad

Cynllun Gweithredu: Ymweliad â Chyngor Dinas a Sir Abertawe ar 19 Ebrill 2018
ynghŷn â'u Gwybodaeth System Monitro Gwaith Gorfodi Awdurdodau Lleol (LAEMS)
2016/17)

Allwedd Statws

	Wedi'i gwblhau
	Cynnydd da
	Cynnydd cyfyngedig
	Heb gymryd unrhyw gamau gweithredu

I weithredu (Argymhellion)	Statws / Erbyn (Dyddiad)	Gwelliannau arfaethedig	Cynnydd hyd yma	Heb ei gyflawni
<p>Argymhelliad 1</p> <p>Dylai'r awdurdod sicrhau bod cyfrif LAEMS gyda'r lefel briodol o fynediad yn cael ei greu ar gyfer y Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd dros dro, a darparu cyfarwyddiadau er mwyn sicrhau bod y system yn cael ei gweithredu mewn modd sy'n darparu'r wybodaeth ofynnol i'r ASB.</p>		<p>Cyfrif LAEMS gyda'r lefel briodol o fynediad wedi'i sefydlu ar gyfer y Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd Dros Dro.</p>	<p>Mae'r awdurdod wedi creu cyfrif LAEMS gyda'r lefel briodol o fynediad. Mae hyn wedi galluogi cymeradwyo data LAEMS 2017/18.</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>

<p><u>Argymhelliad 2</u></p> <p>Dylai'r awdurdod sicrhau bod pob cam o broses cyflwyno gwybodaeth LAEMS yn cael ei gynnal yn unol â chanllawiau LAEMS fel y gall ddarparu'r wybodaeth ofynnol i'r ASB.</p>	<p>Agored - 31/5/18</p>	<p>Mae gweithdrefn newydd ar gyfer cyflwyno LAEMS bellach wedi'i gweithredu. Mae'r weithdrefn yn dilyn Canllawiau LAEMS a bydd pob cyflwyniad yn y dyfodol yn dilyn y weithdrefn.</p>	<p>Heb ei wirio</p>	
<p><u>Argymhelliad 3</u></p> <p>Dylai'r awdurdod roi gwybod i'r ASB am unrhyw gamgymeriadau a nodwyd yn ei wybodaeth LAEMS blaenorol mewn modd amserol fel y gellir diwygio'r data yn unol â hynny.</p>		<p>Mae'r weithdrefn wedi'i diwygio i gynnwys rhoi gwybod i'r ASB os bydd gwallau yn y data mewn modd amserol.</p>	<p>Mae'r awdurdod wedi rhoi gwybod i'r ASB am ddata diwygiedig LAEMS 2016/17 sy'n ymwneud ag ymyriadau hylendid bwyd hwyr.</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>